



Gofynnwyd i mi fod yn dyst -beth ddylwn ei wneud

Bod yn dyst yn yr Uchel Lys a'r Llysoedd Sirol

Pam ofynnwyd i mi fod yn dyst?

Gofynnwyd i chi fod yn dyst am fod gennych rywbeth i'w ddweud (gelwir hyn yn 'dystiolaeth') a allai helpu rhywun ('parti') sy'n gwneud hawliad neu sy'n herio hawliad a wnaed mewn llys sifil.

Gan ddibynnu ar y math o hawliad, gellir galw'r unigolyn a'i dechreuodd yn 'hawlydd', yn 'ddeisebydd' neu'n 'geisydd', a'r unigolyn sy'n ei herio yn 'ddiffynnydd' neu'n 'atebydd'.

Mae llys sifil yn delio gyda materion nad ydynt yn rhai troseddol, er enghraifft:

- materion teuluol yn cynnwys ysgariad a mabwysiadu;
- hawliadau am ddyledion; a
- hawliadau am iawndal i ddigolledu am anafiadau personol neu ddifrod i eiddo.

Gellir gwrando ar achos sifil naill ai mewn Llys Sirol, y Llys Teulu neu yn yr Uchel Lys.

Efallai y gofynnir i chi fod yn dyst gan barti neu gan gynrychiolydd cyfreithiol y parti oherwydd, er enghraifft,

- yr ydych wedi gweld damwain yn digwydd, ac yn gallu dweud sut y digwyddodd. Yn yr achos hwn, gelwir chi yn 'dyst i'r ffeithiau'; neu
- mae gennych gymhwyster, gwybodaeth neu sgil arbennig (fel meddyg, deintydd, plymwr, adeiladwr, mecanig) ac yn gallu rhoi barn broffesiynol ('adroddiad') am anafiadau, cyflwr cerbyd modur neu ansawdd gwaith adeiladu sydd wedi'i wneud gan eraill. Yn yr achos hwn gelwir chi yn 'dyst arbenigol'.

A fedraf wrthod bod yn dyst?

Medrwch, os gofynnir i chi fod yn dyst arbenigol. Rhaid i chi benderfynu a allwch fforddio cymryd yr amser i ffwrdd o'ch gwaith neu fusnes i baratoi adroddiad ac, efallai, i fynychu gwrandawriad yn y llys.

Os gofynnir i chi fod yn dyst i'r ffeithiau, gallwch hefyd wrthod. Ond gall y parti sy'n gofyn i chi fod yn dyst gymryd camau i'ch gorfodi i ddod i'r llys i fod yn dyst iddynt.

Dywedwch wrth y parti (neu wrth gynrychiolydd cyfreithiol y parti) cyn gynted ag y bo modd os ydych wedi trefnu rhywbeth, fel gwyliau neu apwyntiad yn yr ysbyty a allai effeithio ar y dyddiadau y gallwch ddod i'r llys.

Sut y gellir fy ngorfodi i fod yn dyst i'r ffeithiau?

Gall parti (neu gyfreithiwr y parti) ofyn i'r llys gyflwyno Ffurflen N20 (gwês tyst).

Mae Ffurflen N20 yn dweud wrthy ch bod yn rhaid i chi fynd i'r llys fel tyst, a phryd a ble i fynychu. Os na fyddwch yn mynd pan ofynnir i chi, byddwch yn euog o 'ddirmygu'r llys' a gellir eich dirwyo hyd at £1,000 yn y Llys Sirol. Yn yr Uchel Lys, gall y gosb fod yn gyfnod o garchar neu atafaelu eich asedau.

Os byddwch yn derbyn gwês tyst ond ni allwch yn wirioneddol fynychu'r gwrandawriad, gallwch wneud cais i dynnu'r gwês yn ôl.

Cyn y byddwch yn gwneud hyn, cysylltwch gyda'r parti (neu gynrychiolydd cyfreithiol y parti). Mae'n bosibl y bydd yn gallu eich helpu gydag unrhyw anhawster sydd gennych.

Os na fedrant eich helpu, rhaid i chi fynd at y llys lle cyflwynwyd y gwês cyn gynted ag y bo modd a gofyn am gael gwneud cais. Efallai y bydd raid i chi dalu ffi.

Byddwch yn cael apwyntiad i weld barnwr. Bydd y barnwr yn gwrandao ar eich rhesymau ac unrhyw wrthwynebiadau ac yn penderfynu a ddylid eich esgusodi rhag bod yn dyst.

Meddylwch yn ofalus cyn gwneud y cais. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, efallai y bydd raid i chi dalu costau'r parti a gyflwynodd y gwês tyst.

Gallwch dal dderbyn gwês tyst hyd yn oed os nad ydych wedi gwrthod bod yn dyst. Gallwch hefyd ofyn am dderbyn un. Efallai y byddwch yn ei chael yn ddefnyddiol dangos un, er enghraifft i'ch cyflogwr os bydd yn rhaid i chi ofyn am amser i ffwrdd o'ch gwaith i fynychu'r gwrandawriad.

Sut y byddaf yn rhoi fy nhystiolaeth os wyf yn dyst i'r ffeithiau?

Bydd y llys yn penderfynu a fydd y dystiolaeth a roddwch yn ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau. Bydd eich dystiolaeth ysgrifenedig wedi'i chynnwys mewn 'datganiad tyst'.

Dylai'r datganiad tyst fod yn eich geiriau eich hun a dylai nodi:

- eich enw a'ch cyfeiriad llawn a'ch galwedigaeth;
- a ydyw'r manylion ynddo yn deillio o'ch gwybodaeth chi eich hun; a chynnwys
- datganiad o wirionedd wedi'i lofnodi- hynny yw "Credaf fod y ffeithiau yn y datganiad tyst hwn yn wir" – a'ch llofnod ar ei ddiwedd.

Os rhowch chi wybodaeth anwir yn fwriadol yn eich datganiad, a'ch bod wedi ei gadarnhau gyda datganiad gwirionedd, mae'n bosib y bydd goblygiadau difrifol i chi.

Sut y byddaf yn rhoi fy nhystiolaeth os wyf yn dyst arbenigol?

Y rheol gyffredinol yw na fydd angen i chi fynychu'r llys a bydd eich tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'ch adroddiad ysgrifenedig. Os bydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth, bydd yr unigolyn sy'n gofyn am eich adroddiad yn dweud wrthy ch pryd a ble i fynychu neu'n anfon Ffurflen N20 atoch (gwŷs tyst)

Beth ddylai fod yn fy adroddiad?

Dylai'r adroddiad fod wedi'i gyfeirio at y llys ac nid at y parti a 'gyfarwyddodd' chi (gofynnodd i chi) i baratoi eich adroddiad.

Mae gennych ddyletswydd i'r llys i'w helpu gyda phob mater o fewn eich arbenigedd. Mae eich dyletswydd i'r llys yn fwy nag unrhyw ymrwymiad sydd gennych i'r parti sy'n eich cyfarwyddo neu sy'n talu am eich adroddiad.

Rhaid i'ch adroddiad roi manylion ynghylch:

- eich cymwysterau;
- unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall y gwnaethoch ddibynnu arnynt i baratoi'r adroddiad;
- unrhyw unigolyn a gyflawnodd unrhyw brawf neu arbrawf y sonnir amdano yn yr adroddiad, gan gynnwys eu cymwysterau, ac a gafodd ei wneud o dan eich goruchwyliaeth.

A dylai gynnwys:

- crynodeb o unrhyw ystod barn a roddir yn yr adroddiad, a'r rhesymau dros eich barn chi eich hun;
- datganiad yn nodi eich bod yn deall eich dyletswydd i'r llys a'ch bod wedi cydymffurfio gyda'r dyletswydd hwnnw (gweler uchod);
- crynodeb o unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a llafar a roddwyd i chi gan y parti (neu'r partion) a ofynnodd am yr adroddiad; a

- datganiad gwirionedd wedi'i lofnodi ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad - hy. "Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi gwneud yn glir pa ffeithiau a materion a gyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn sydd o fewn fy ngwybodaeth i fy hun, a'r rhai sydd ddim. Rwyf yn cadarnhau bod y rhai sydd o fewn fy ngwybodaeth i fy hun yn wir. Mae'r tybiadau rwyf wedi eu mynegi yn cynrychioli fy nhybiadau proffesiynol gwir a chyflawn ar y mater maent yn cyfeirio atynt" - gyda'ch llofnod yn dilyn.

Os ydych yn fwriadol yn rhoi gwybodaeth anwir yn eich adroddiad a'ch bod wedi'i gadarnhau gyda datganiad gwirionedd, mae'n bosib y bydd goblygiadau difrifol i chi.

Rhaid i'r hyn y mae datganiad tyst yn ei ddweud fod yn wir. Os defnyddir y datganiad fel tystiolaeth a darganfyddir eich bod wedi dweud celwydd yn fwriadol, gellir dwyn achos llys yn eich erbyn a gallai arwain at ddirwy neu garchar.

Weithiau, bydd yr ochr (y parti) arall mewn achos yn cytuno y dylid defnyddio datganiad (neu adroddiad) tyst neilltuol fel tystiolaeth. Os bydd hyn yn digwydd, efallai na fydd raid i chi fynychu'r gwrandawriad llys. **Rhoddir gwybod i chi os na fydd yn rhaid i chi fynd i'r llys (gan y partïon- nid y llys).**

Os bydd y partïon:

- yn anghytuno ynghylch eich tystiolaeth ysgrifenedig, neu
- yn teimlo y dylech fod yn y llys rhag ofn y bydd y barnwr, neu'r ochr arall, eisiau gofyn cwestiynau i chi am eich tystiolaeth, yna rhoddir gwybod i chi am amser, dyddiad a lleoliad y gwrandawriad

A allaf hawlio fy nghostau?

Medrwch. Dylai'r parti (neu gyfreithiwr y parti) sy'n gofyn i chi fod yn dyst dalu:

- eich costau o deithio i ac o'r llys;
- cost unrhyw arhosiad dros nos mewn llety (os oes angen);
- swm rhesymol i'ch digolledu am unrhyw gyflog neu incwm y gallwch ei golli am orfod mynd i'r llys; ac
- am yr amser yr ydych wedi'i dreulio yn paratoi eich adroddiad.

Nid oes unrhyw swm penodol a delir am baratoi adroddiad arbenigol. Mater i chi fydd penderfynu gwerth eich amser. Dylech gytuno ar swm gyda'r parti (neu gyfreithiwr y parti) a phryd y bydd yn cael ei dalu **cyn** i chi gytuno i ysgrifennu'r adroddiad.

Os byddwch angen arian teithio neu i dalu am lety dros nos cyn y gwrandawriad, dylech ofyn i'r parti neu i'w gyfreithiwr. **Ni all y llys eich helpu gyda hyn.**

Beth ddylwn ei wneud i baratoi ar gyfer y gwrandawriad?

Gwnewch yn siwr fod gennych yr holl bapurau angenrheidiol ar gyfer yr achos. Cofiwch sicrhau eu bod yn y drefn gywir fel y gallwch gyfeirio atynt yn sydyn ac yn hawdd.

Byddwch yn gwbl glir ynghylch amser, dyddiad a lleoliad y gwrandawriad, ac ymhle y mae'r llys. Mae gan bob llys ei daflen ei hun fydd yn dweud wrthyfch ble mae'r llys, a pha gyfleusterau sydd ganddo. Bydd y llys yn anfon un atoch os gofynnwch iddo.

Os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd ichi fynychu'r llys neu i gyfathrebu, ac/ neu eich bod eisiau unrhyw wybodaeth mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, cysylltwch â'r llys perthnasol a fydd yn gallu eich helpu. Mae manylion cyswllt pob un o'n llysoedd ar gael yn hmcts.courtfinder.justice.gov.uk

Penderfynwch ba ddillad y byddwch yn eu gwisgo. Mae'n debyg y bydd raid i chi dreulio tipyn o amser yn aros, felly dewiswch rywbeth cyffyrddus ond smart.

I helpu i basio'r amser tra byddwch yn aros, ewch â llyfr gyda chi neu gofynnwch i ffrind ddod gyda chi yn gwmpeini (er na fydd y ffrind yn gallu hawlio unrhyw gostau teithio ac ati).

Os gallwch, mae'n syniad da mynd i'r llys ymlaen llaw i weld ymhle y cynhelir y gwrandawriad. Bydd aelod o staff y llys yn dangos i chi ble y byddwch yn aros a ble y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth. Os penderfynwch wneud hyn, byddai'n helpu staff y llys pe gallech ysgrifennu atynt yn gyntaf i drefnu amser addas. **Ni fyddwch yn gallu hawlio unrhyw gostau am yr ymweliad hwn.**

Efallai y bydd rhai cynrychiolydd cyfreithiol am i chi fynd i'w swyddfa cyn y gwrandawriad i fynd trwy eich tystiolaeth. Mae hyn yn ddefnyddiol a bydd yn rhoi syniad i chi o'r math o gwestiynau y bydd yn rhaid i chi efallai eu hateb yn y gwrandawriad.

Ymhle y cynhelir y gwrandawriad?

Bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal naill ai yn un o ystafelloedd y llys neu yn ystafell y barnwr. Mae gan rai o'r ystafelloedd hyn offer i recordio'r dystiolaeth a roddir.

Gall gwrandawriadau fod naill ai'n 'gyhoeddus' neu'n 'breifat':

- Mae aelodau o'r cyhoedd yn cael bod yn bresennol mewn gwrandawriad cyhoeddus, os oes digon o le.
- Dim ond y bobl sy'n rhan o'r achos (y partion), eu tystion a'u cynrychiolwyr cyfreithiol sy'n cael bod yn bresennol mewn gwrandawriad preifat.

Y barnwr sy'n penderfynu a fydd y gwrandawriad yn gyhoeddus neu'n breifat, ond mae achosion meddiannu neu achosion yn ymwneud â sefyllfa ariannol neu fuddiannau plentyn fel arfer yn cael eu gwrandawrio'n breifat.

Beth ydwyf yn galw'r barnwr?

- Gelwir Barnwr yr Uchel Lys yn 'Fy Arglwydd' neu 'Fy Arglwyddes'.
- Gelwir Barnwr Cylchdaith yn 'Eich Anrhydedd'.
- Gelwir Barnwr Rhanbarth yn 'Syr' neu 'Madam'

Os nad ydych yn siwr pa fath o farnwr fydd yn gwrando ar eich achos, gofynnwch i un o staff y llys, neu i gynrychiolwyr cyfreithiol y parti.

Beth ddylwn ei wneud ar ddiwrnod y gwrandawriad?

Dylech gyrraedd mewn da bryd. Dod o hyd i'r parti yr ydych yn rhoi tystiolaeth drostynt (neu ei cynrychiolwyr cyfreithiol). Efallai y bydd rhai cyfarwyddiadau munud olaf i'w rhoi i chi. Er enghraifft, efallai y cewch wybod tua phryd y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth, neu fod yr achos wedi'i setlo ar y funud olaf ac nad oes angen cynnal y gwrandawriad.

Pan fyddwch yn cyrraedd y ganolfan wrandawriadau, dylech fynd at y derbynnydd neu at un o dywyswyr y llys (fydd fel arfer yn gwisgo gŵn ddu laes). Bydd nodyn yn cael ei wneud o'r ffaith eich bod wedi cyrraedd a rhoddir gwybod i chi ymhle i aros.

Os bydd yn rhaid i chi adael yr ystafell aros am unrhyw reswm, cofiwch ddweud wrth y tywyswr neu wrth unigolyn arall sy'n rhan o'r achos lle y byddwch.

Fel arfer, bydd rhestr o'r achosion sy'n cael eu gwrando ar y diwrnod hwnnw ar hysbysfwrdd wrth ymyl yr ystafell aros. Bydd y rhestr yn dweud wrthyfych a fydd eich achos yn cael ei wrando arno'n gyhoeddus neu'n breifat. Dylai hefyd roi enw'r barnwr ac a ydyw ef neu hi yn Farnwr Uchel Lys, Cylchdaith neu Rhanbarth.

Beth ddylwn ei wneud yn ystafell y llys neu ystafell y barnwr?

Bydd y tywyswr fel arfer yn galw eich enw pan ddaw'n amser i chi roi eich tystiolaeth. Byddwch yn cael eich hebrwng i'r blwch tystion. Dylech sefyll ar eich traed. Os yw sefyll yn anodd i chi, gallwch ofyn am gael eistedd.

Gall y naill ochr neu'r llall ofyn i'r barnwr am gadw'r tyst y tu allan i ystafell y llys (neu ystafell y barnwr) hyd nes bod angen iddynt roi eu tystiolaeth. Os bydd hyn yn digwydd, ac mae'r barnwr yn cytuno, rhoddir gwybod i chi. Dangosir i chi lle gallwch aros hyd nes bydd y tywyswr yn eich galw i ddod i mewn i'r gwrandawriad.

Yn ystafell y barnwr, nid oes unrhyw flwch tystion. Byddwch fel arfer yn eistedd o gwmpas bwrdd mawr gydag eraill sy'n ymwneud â'r achos. Fel arall, dylech wneud yr un fath ag y byddech yn ei wneud yn ystafell y llys.

Efallai y gofynnir i chi dyngu llw y bydd yr hyn a ddywedwch yn wir. Cymerir y llw ar feibl

neu lyfr sanctaidd. Os yw hynny'n well gennych, gallwch addo dweud y gwir trwy 'roi cadarnhad'. Byddai'n helpu pe gallech ddweud wrth y tywyswr eich bod am roi cadarnhad, neu ba lyfr sanctaidd yr ydych am dyngu llw arno **cyn** mynd i mewn i'r gwrandawriad.

Yn gyntaf, gofynnir cwestiynau i chi am eich datganiad (neu adroddiad), os gwnaed un gennych, gan gynrychiolwyr cyfreithiol y parti a ofynnodd i chi fod yn dyst. Yna, bydd yr ochr neu'r parti arall (neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol) yn eich holi. Gelwir hyn yn 'groesholi'. Efallai y bydd y barnwr hefyd am ofyn cwestiynau i chi.

Weithiau, bydd bargyfreithiwr yn hytrach na chynrychiolydd cyfreithiol yn eich holi. Yn y llys, bydd bargyfreithiwr yn gwisgo wig a gŵn.

Cofiwch siarad yn glir, gan gyfeirio eich atebion at y barnwr ac nid at yr unigolyn sy'n eich holi. Os nad ydych yn deall y cwestiwn, neu os na allwch glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud, cofiwch ddweud. **Os byddwch angen cyfeirio at eich papurau, rhaid i chi ofyn i'r barnwr am gael gwneud hynny.**

Pan fyddwch wedi rhoi eich tystiolaeth, efallai y dywedir wrthy ch eich bod yn cael eich 'rhyddhau'. Mae hyn yn golygu eich bod yn rhydd i adael y gwrandawriad.

Dim ond os cewch eich rhyddhau neu os yw'r gwrandawriad ar yr achos wedi dod i ben dylech adael adeilad y llys. Weithiau, gallwch gael eich rhyddhau ond gofynnir i chi ddod yn ôl yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, neu ar ddiwrnod arall.